DIRTY PROTEST PRESENTS A NEW PLAY
DIRTY PROTEST YN CYFLWYNO DRAMA NEWYDDA


# MY MIX(ED UP) TAPE

WEDI'I HYSGRIFENNU A'I PHERFFORMIO GAN/
WRITTEN AND PERFORMED BY

**KATIE PAYNE**

GYDA DJ BYW/
WITH LIVE DJ

**GLADE MARIE**



## RHAGLEN

Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

ARIENNIR GAN
Y LOTERI
LOTTERY FUNDED

RHONDDA CYNON TAF

Y PARC A'R DÂR
PARK & DARE

# AM MY MIX(ED UP) TAPE

My Mix(ed up) Tape – drama newydd wedi'i hysgrifennu a'i pherfformio gan Katie Payne, gyda set DJ byw gan Glade Marie.

Mae Phoebe wedi ADHD a yn cael ei gorfodi i fynd i briodas ei chyfnither Caroline nôl adref ym Mhontypridd. PAM? Mae yna bobl y byddai'n well ganddi beidio'u gweld. Teulu a ffrindiau o'i phlentyndod, hyd yn oed Jamie Richards a lyfodd ei gwddf unwaith. Wi'n gwybod. Pwy sy'n gwneud y fath beth?

Trwy gerddoriaeth y briodas daw'r hen wynebau cyfarwydd i'r amlwg, gan gynnwys rhai y bydd Phoebe yn gwneud ei gorau i beidio rholio ei llygaid atyn nhw, megis 'Dai One Shoe' a 'Leather Bag Face Linda'. Fodd bynnag, mae'r daith yma adref yn teimlo'n wahanol. Fydd modd i Phoebe weithio mas sut i oroesi'r noson cyn i'r cyfan ddod yn ormod?

Dewch ar noson mas wyllt yng Nghymoedd De Cymru. Wedi'i pherfformio gyda DJ byw, bydd y ddrama gomedi newydd yma ynglŷn â gadael a dychwelyd i'ch tref enedigol yn gwneud i chi chwerthin, crio a dawnsio yn eich sedd.

Mae’r cynhyrchiad yn cynnwys Disgrifiad Sain wedi ei wreiddio ym mherfformiad Katie, Capsiynnau Creadigol, Capsiynnau Caedig a tameidiau o Visual Vernacular. Mae rhai perfformiadau yn cynnwys Dehongliad BSL ymgorfforedig gan Sami Dunn.

**Rhybuddion cynnwys:**
Iaith gref a rhywiol; cyfeiriadau at ryw, bwlio, trais corfforol, cam-drin/trais yn y cartref, erthyliad.

# GWYBODAETH TAITH
# MIS HYDREF 2022

**Theatr y Parc a'r Dâr,  Treorci**
03000 040444 rct-theatres.co.uk
Iau 13 - 7.00 pm
Gwener 14 - 7.00pm
Sadwrn 15 - 7.00pm (Dehongliwyd BSL gan Sami Dunn)

**Redhouse Cymru, Merthyr Tudful**
01685 727475 tinyurl.com/596rz5nb
Mawrth 18 – 7.30pm

**Le Pub, Casnewydd**
01633 256326 lepublicspace.co.uk
Mercher 19 - 7.30pm (Dehongliwyd BSL gan Sami Dunn)

**Pafiliwn Y Grand, Porthcawl**
01656 815995 grandpavilion.co.uk
Iau 20 – 7.30pm

**Y Neuadd Les, Ystradgynlais**
01639 843163 thewelfare.co.uk
Llun 24 - 7.30pm

**Duffy's (Pontypridd Ex-Servicemen's Club), Pontypridd**
01443 402129 dirtyprotesttheatre.eventbrite.co.uk
Mercher 26 – 7.30pm

**Y Ffwrnes, Llanelli**
0345 226 3510 theatrausirgar.co.uk
Iau 27 – 7.30pm (Dehongliwyd BSL gan Sami Dunn)

**Theatr Torch, Aberdaugleddau**
01646 695267 torchtheatre.co.uk
Sadwrn 29 - 7.30pm (Dehongliwyd BSL gan Sami Dunn)

**Tocynnau £5 - £13 (prisiau yn amrywio fesul lleoliad)**

# CAST & TÎM CREADIGOL

## CAST



**Katie Payne**
**Ysgriffenwr/ Perfformiwr**

Mae Katie yn actor/awdur a aned ac a fagwyd yng nghymoedd De Cymru. Fel actor, mae Katie wedi perfformio mewn sioeau theatr megis 'Curious Incident of The Dog In The Night-time' ar gyfer y National Theatre ac wedi dyfeisio Frantic Assembly on 'Little Dogs', drama mewn cydweithrediad â National Theatre Wales.

Mae Katie i'w gweld hefyd ar y teledu ac mewn ffilm, yn fwyaf diweddar yn 'This Boy A', 'Seeking The Sandman', 'Emmerdale' ac 'Indulgence' ar gyfer Amazon. Mae ei gweithiau ysgrifenedig mwyaf diweddar yn cynnwys comisiwn ar gyfer drama 6 rhan gyda FILMNATION ENT a drama/gomedi o'r enw 'Grifters'.

Mae Katie wedi bod erioed â diddordeb mewn archwilio symud, cerddoriaeth a thestun sy'n adlewyrchu diwylliant cyfoes. Mae wedi bod ynglŷn â phlethu ynghyd y bydoedd hyn ers blynyddoedd fel actores ac wedi mynegi ei chyffro o fod wedi cael cydweithio gyda'r cwmni theatr blaengar ffres Dirty Protest a Theatrau RhCT sy'n gwneud ymdrech i adrodd storïau lleisiau nad ydynt yn cael eu clywed. Mae'n edrych ymlaen at greu cyswllt rhwng y math newydd yma o theatr a chynulleidfaoedd yng Nghymru ac yn gobeithio creu cyswllt ar gyfer creu gweithiau pellach gyda chenedlaethau'r dyfodol.



**Glade Marie**
**DJ**

Mae Glade Marie yn DJ wedi ei lleoli yn Ne Llundain sydd â threfniant trigiannol yn Prince of Peckham yn ogystal â bod yn Gyflwynydd Radio gyda sioe radio wythnosol 'Late With Glade' ar yr orsaf radio a ddisgrifiwyd gan The Guardian fel 'gorsaf radio newydd Prydain Ddu', sef No Signal.

Mae'n hybu ei dewisiadau eclectig o jazz, ffync, soul, hip hop ac r&b tra'n ymddangos mewn clybiau nos led-led y ddinas. Mae'n rhan o label recordio ym Mryste, sydd ddim yn gwneud elw, o'r enw Saffron Music - sydd wedi ymrwymo i herio'r diffyg cydbwysedd i'r rhywiau yn y diwydiant cerddoriaeth – mae cerddoriaeth Glade Marie yn adlewyrchu ei chariad tuag at ei diwylliant a'i chymuned.



**Sami Dunn**
**Dehonglydd BSL**

Mae Sami yn ddehonglydd BSL/Saesneg cofrestredig ac yn berfformiwr a ddechreuodd ddysgu British Sign Language pan yn 15 oed. Ers graddio mewn gradd hyfforddi arbenigol; Celfyddydau'r Theatr, Addysg ac Astudiaethau Byddar ym Mhrifysgol Reading, mae wedi darparu dehongli wedi ei integreiddio i gwmnïau theatr megis y Royal Shakespeare Company, Graeae a Taking Flight.

# TÎM CREADIGOL



**Catherine Paskell**

**Cyfarwyddwr/Cyfarwyddwr Artistig, Dirty Protest Theatre**

Mae Catherine yn Gyfarwyddwr Creadigol cwmni theatr dramodwyr newydd, Dirty Protest ac yn gyfarwyddwr perfformiadau byw annibynnol o Gymru. Mae'n gydymaith celfyddydol ar gyfer Cyngor Celfyddydau Cymru, yn Gymrawd Rhaglen Arwain Clore ac yn lysgennad rhanbarthol ar gyfer yr Ŵyl Ddrama Fyfyrwyr Genedlaethol. Roedd Catherine yn gydymaith adeg sefydlu National Theatre Wales ac wedi cyfarwyddo cynyrchiadau llwyfan, a chynnal rhaglenni datblygu artistiaid yn rhyngwladol.



**Jonny Cotsen**

**Dramaturg Mynediad wedi ei Integreiddio**

Mae Jonny Cotsen athro celf wedi ei gymhwyso ond gadawodd ei waith proffesiynol er mwyn datblygu ei hun fel artist perfformio ac ymgynghorydd mynediad creadigol i hyrwyddo cynnwys pawb yn y celfyddydau. Mae Jonny yn eirolwr cryf dros gwell mynediad i'r celfyddydau. Mae Jonny yn mwynhau siarad yn gyhoeddus a bod ar baneli trafod ynghylch darparu mynediad i'r celfyddydau. Bu Jonny yn perfformio gyda 'Louder Is Not Always Clearer' a gynhyrchwyd ac a gyfarwyddwyd a'i gyd-ysgrifennu gan Mr and Mrs Clark. Aeth 'Louder Is Not Always Clearer' ar daith helaeth ar draws y DU ac Ewrop am dros 4 blynedd yn ogystal â chyfnod llwyddiannus yng Ngŵyl Ymylol Caeredin yn 2019 ar ôl cychwyn yng Nghanolfan Gelfyddydol Chapter yn 2017. Addasodd On Par Productions a Mr and Mrs Clark, 'Louder Is Not Always Clearer' i fod yn ffilm fer gyda chefnogaeth BBC Arts ar gyfer y tymor 'Culture In Quarantine'. Mae rhaglen ddogfen Jonny 'Born Deaf, Raised Hearing' fel rhan o gyfres 'Our Lives' ar y BBC yn rhaglen fer ar berthynas Jonny gyda'i fyddardod. Mae Jonny yn ymddiriedolwr gyda Disability Arts Cymru, Theatre Iolo, Canolfan y Byddar Cymru a Nova Theatre ac ar hyn o bryd yn Artist Gydymaith gyda Papertrail.



**Dave Beever**

**Rheolwr y Cynhyrchiad / Cynllunydd y Golau**

Mae Dave yn Reolwr Cynhyrchu llawrydd ac yn Gynllunydd Golau dod o Cei Connah, wedi ei leoli yn yr Henffordd, ac â gradd BA Anrh mewn Cynllunio Golau a Rheoli Cynyrchiadau o Brifysgol Brighton. Ar hyn o bryd mae Dave yn Reolwr Cynyrchiadau ar gyfer 2Faced Dance Co, ZOO Venues, The Courtyard - Henffordd yn ogystal â Dirty Protest.

Ymhlith ei gynlluniau Golau mae 'Double Drop' (Dirty Protest, Ngŵyl Ymylol Caeredin 2022), 'Jack & the Beanstalk' (Courtyard, Henffordd), 'Sprinkles' (Dirty Protest), 'How To Be Brave' (Dirty Protest, taith a Ngŵyl Ymylol Caeredin 2019), 'Snow Queen' (Courtyard, Henffordd), 'Power' (2Faced Dance), 'Shrek: The Musical' (X-ntricity).

Yn ei amser hamdden mae Dave o dro i dro yn Gynhyrchydd sain i fandiau ynteu'n DJ yn ardal Henffordd.



**Dan Lawrence**
**Cynllunydd Sain**

Magwyd Dan yn Aberystwyth ac aeth i astudio Cerddoriaeth Bop a Recordio yn Salford, gan raddio yn 1992. Bu'n byw yng Nghaerdydd ers 2003 gan weithio fel cyfansoddwr, cyfarwyddwr cerdd, a chynllunydd sain ar gyfer nifer o gwmnïau theatr Cymreig yn cynnwys National Theatre Wales, Theatr Genedlaethol Cymru, Sherman Cymru, Theatr Iolo, Hijinx, Gagglebabble a Taking Flight. Mae wedi gweithio'n helaeth gyda Dirty Protest dros y blynyddoedd diwethaf.
Mae Dan hefyd yn rhedeg ei stiwdio recordio ei hun yng Nghaerdydd, yn tiwtora bandiau ifanc ac yn parhau i berfformio yn gyson gyda'r ddeuawd gwerin traddodiadol Cymreig Olion Byw a'r band Cymreig /Galisaidd cydweithredol Maelog.



**Nic Finch**
**Lluniwr Capsiynau Creadigol a'r Hunaniaeth Weledol**

Cynllunydd Graffeg yw Nic, darlunydd a chrëwr delweddau sy'n symud / cynllunydd fideo gyda gogwydd ar gerddoriaeth. Dylanwadwyd ar waith Nic gan berthynas cymdeithas â thechnoleg, diwylliant pop, gwleidyddiaeth rhyw, hunaniaeth, dystopia digidol a diwedd hanes.



**Jorge Lizalde**
**Cynllunydd taflunio fideo a Ffilm**

Mae Jorge Lizalde yn artist sy'n gweithio'n bennaf gyda ffotograffiaeth, delweddau sy'n symud a mapio trwy daflunio a gosodiadau fideo.
Mae wedi bod yn gweithio fel gweithiwr llaw-rydd gyda Studiocano.co.uk y mae'n berchen arno, ond wedi cyfrannu hefyd, a chydweithio mewn prosiectau sydd wedi ei gynorthwyo i fod yn rhan o gymuned artistig Caerdydd yn ogystal â dangos ei waith celf ei hun yn helaeth. Yn ogystal â chynyrchiadau theatr fel cynllunydd fideo a gweithiwr technegol creadigol – o ran taflunio a mapio fideo – mae hefyd wedi arddangos ei waith ei hun yn g39, Ffotogallery, Shift Mostyn.



**Ruth Stringer**
**Cynllunydd**

Mae Ruth yn gynllunydd setiau a gwisgoedd wedi ei lleoli yn ne Cymru ac wedi derbyn MA mewn cynllunio i'r Theatr oddi wrth Goleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru. Mae Ruth wedi bod yn cynllunio ar gyfer y theatr, opera, dawns a lleoliadau ers dros 10 mlynedd gan weithio i gwmnïau megis The Other Room, Sherman, National Theatre Wales,Shunt, Albany Theatre, Citrus Arts, Soho Theatre, The Royal Court, Taking Flight, Carbon Theatre, Opera Sonic, a DorkyPark. Yn ei hoff brosiectau mae'n chwilio am leoliadau awyr agored hynod, sy'n crisialu'r gymuned leol ac yn dathlu cynllunio gwyrdd o ran y cynllun a gwireddu hwnnw.
Mae Ruth yn eiriolwr cryf dros weithio'n gynaliadwy yn y diwydiant perfformio. Yn 2019 bu'n rhan o gyfnod trigiannol National Theatre Wales, Egin, a fu'n archwilio ymatebion artistig i newid hinsawdd – sy'n thema y mae'n datblygu yn ei phrosiectau ei hun hefyd. Mae Ruth yn aelod craidd o dîm Ecostage (ecostage.online), ac o Weithgor Cynaladwyedd Cymdeithas Cynllunwyr Theatr Prydain. Gellir gweld lluniau o weithiau blaenorol Ruth ar ei gwefan: www.ruthstringer.com.




**Bethan Thomas**
**Diprwy Gynllunydd**

Mae Bethan yn gynllunydd a lluniwr setiau wedi ei lleoli yn Aberdâr, de Cymru, Astudiodd am BA mewn Cynllunio a chynhyrchu setiau ym Mhrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant. Ymhlith y gweithiau y bu Bethan ynglŷn â nhw yn cynnwys Cynllunydd ar gyfer 'Penny and Rhys' (National Dance Company Wales' 'Above and Beyond' prosiect Cysylltu a Ffynnu), 'Everyday a Little Death' (PCDDS Theatr Gerdd), a 'Dau' (Theatrau RhCT). Mae Bethan wedi gweithio hefyd fel darlunydd ar gyfer 'Sue' (Theatrau RhCT – Ymchwil a Datblygu) a 'Sam's Youth Arts Story' (Off Ya Trolley Productions).
Mae Bethan yn mwynhau creu amgylcheddau haniaethol sy'n caniatáu i'r gynulleidfa herio eu ffordd o feddwl a'u cyswllt â'r darn.



**Kyle Stead**
**Diprwy Gynhyrchydd**

Mae Kyle yn actor dosbarth budd-daliadau, yn gynhyrchydd a chrëwr theatr o'r Rhondda yn ne Cymru.
Mae'n diddori mewn gweithiau sy'n defnyddio profiadau go iawn bywyd er mwyn rhoi mewnweledíad go iawn i gynulleidfaoedd i'r byd sy'n cael ei greu.
Ef yw Cyfarwyddwr Artistig Off Ya Trolley Productions, a gyd-sefydlodd yn 2020 â'r nod o gynhyrchu gwaith sy'n clodfori ac yn rhoi llais i gymunedau ac artistiaid o gefndiroedd dosbarth gweithiol. Mae Kyle ar hyn o bryd yn meithrin ei grefft fel cynhyrchydd. Mae'n awr yn gweithio fel Cynhyrchydd Creadigol Cynorthwyol gyda Theatrau RhCT. Derbyniodd Addysged Greadigol Weston Jerwood Creative 2020-2022. Mae Kyle yn rhan o griw Cynhyrchwyr Creadigol Arise Wales FIO, mewn partneriaeth â Chanolfan in Mileniwm Cymru. Gellir dod o hyd i waith Kyle o fynd at www.kylestead.co.uk.



**Alastair Sill**
**Ymgynghorydd Sain Ddisgrifio Gwreiddiol**

Dros yr ugain mlynedd diwethaf rwyf wedi gweithio fel disgrifydd sain gyda chwmnïau theatr amrywiol yng Nghymru a thu hwnt, gan gwmpasu amrywiaeth o fathau o berfformiadau o Shakespeare yn yr awyr agored i fflamenco! Mae gwaith blaenorol gyda Dirty Protest yn cynnwys: Parallel Lines, gan Katherine Chandler, a gyfarwyddwyd gan Catherine Paskell. Gall integreiddio disgrifiadau sain i wead y ddrama arwain at ganlyniadau dychmygus a chyffrous i bawb yn y gynulleidfa. Mae gwaith blaenorol yn y dull creadigol hwn o ddisgrifio sain yn cynnwys 'With Eyes Closed', Company of Sirens/SightLife a 'The Winter's Tale', Taking Flight Theatre.
"Mae Katie a'r tîm wedi cofleidio'r agwedd hon yn llwyr ac rwy'n siŵr y bydd pawb yn mwynhau'r canlyniadau! Mwynhewch! "

# GYDA DIOLCH ARBENNIG I:

Brian Duffy - Cyfarwyddwr Elfennau Cynhenid Gweledol
Heather Williams - Ymgynghorydd Creadigol BSL
Claire Anderson, Julia Robinson, Nez Parr - Cefnogaeth BSL
Alan Harris - Dramaturg
Matthew Bulgo - Dramaturg Dirty Protest
Laura Dalgleish - Cyfryngau Cymdeithasol a Hyrwyddo Dirty Protest
Catrin Rogers - Cefnogaeth PR
Angela Gould - Rheolwr Rhaglennu Theatrau RhCT
Maggie Dunning - Swyddog Datblygu Cyngor Celfyddydau Cymru
Robert Jones - Rheolwr Technegol (Theatr y Parc a Dâr)
Craig Bridgeman - Uwch Dechnegydd (Theatr y Parc a Dâr)
Owain Wilson ac Ian Glover, Technegwyr (Theatr y Parc a Dâr)
Mad Science Films - Rhaglun Ffilm
Dan Green - Ffotograffiaeth Cynhyrchu

Lleisiau cymeriad a siaredir gan:
Andrew Payne, Berwyn Pearce, Hannah Lad, Jorgie Stuckey & Robert Jones.

Diolch i National Theatre Wales am roi benthyg eu hoffer capsyynnau caedig i ni.

Rhentodd DJ Booth gan Event Perfection

Diolch o galon hefyd i bawb a gefnogodd ein gwaith ymchwil a datblygu rhwng 2019 a 2021